

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

RHEOLI CYFALAF

**I'W DDEFNYDDIO GAN BOB RHEOLWR CYLLIDEB
GYFALAF**

**Gwasanaethau Ariannol
Adolygwyd ym mis Ebrill 2014**

Mynegai	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad	
1.1. Y Diffiniad o Wariant Cyfalaf	3
1.2. Y Rhaglen Gyfalaf ac Aseidiadau Blaenoriaeth	3-4
1.3. Statws y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd	4-5
1.4. Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf	5-7
1.5. Pecyn Cymorth Rheoli Prosiectau	7
2. Amserlen y Rhaglen Gyfalaf	
2.1. Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf - Trosolwg	8
2.2. Tabl y Broses o Gymeradwyo Cynlluniau Cyfalaf/ y Rhaglen Gyfalaf	8
3. Rheoli'r Broses Gyfalaf – Gweithdrefnau Manwl	
3.1. Y Broses o Gynnwys Cynllun/Rhaglen yn y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Camau 1-7)	9-11
3.2. Rheoli Cynlluniau/Rhaglenni a Gymeradwywyd Cyn iddynt Ddechrau	11-15
3.3. Monitro Cynlluniau/Rhaglenni Cyfalaf sydd ar y Gweill neu yn y Cyfnod Datblygu	15-17
3.4. Rheoli Gorwariant / Tanwariant Posibl ar Gynlluniau/ Rhaglenni Unigol	17-18
3.5. Arfarniad Ar Ôl Buddsoddi	18-19
4. Rolau a Chyfrifoldebau	20-23

1. CYFLWYNIAD

1.1 Y Diffiniad o Wariant Cyfalaf

Dylai gwariant ar gaffael ased diriaethol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth, ac nid dim ond yn cynnal gwerth, ased presennol, gael ei gyfalafu a'i ddosbarthu fel ased diriaethol sefydlog, ar yr amod ei fod yn dwyn budd i'r awdurdod a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu am gyfnod o fwy na blwyddyn.

Caiff gwariant cyfalaf ei ddiffinio gan ddeddfwriaeth fel a ganlyn:

- caffael, adfer, gwella* neu lunio tir;
- caffael, adeiladu, paratoi, gwella* neu ddisodli ffyrdd, adeiladau a strwythurau eraill;
- caffael, gosod neu ddisodli cyfarpar, peiriannau, offer, cerbydau a llongau symudadwy neu ansymudadwy.

*Y diffiniad o wella yw ... "gwneud gwaith sydd wedi'i fwriadu i hwyhau bywyd defnyddiol ased yn sylweddol ... cynyddu ei werth ar y farchnad agored neu gynyddu'n sylweddol y graddau y gellir ei ddefnyddio neu y bydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion neu ... ar gyfer swyddogaethau'r awdurdod dan sylw".

1.2 Y Rhaglen Gyfalaf ac Asesiadau Blaenoriaeth

Mae Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin yn nodi'n fras beth yw nodau ac amcanion cyffredinol yr Awdurdod. Ceir is-strategaethau amrywiol sy'n bwydo i mewn i'r Strategaeth Gorfforaethol ac yn ei hategu, ac mae'r Rhaglen Gyfalaf yn tanategu'r rhain. Felly bydd cysylltiad agos rhwng y rhaglen gyfalaf ar y naill law a'r amryw is-strategaethau a chynlluniau (e.e. y Cynllun Rheoli Asedau, y Cynllun Trafnidiaeth Leol a.y.b.) a Chynlluniau Busnes yr Adrannau Gwasanaeth ar y llaw arall, gyda'r nod o gyflawni prosiectau ac allbynnau sy'n cyflawni'r amcanion a bennwyd. Caiff y Rhaglen Gyfalaf ei pharatoi a'i chymeradwyo ar sail blaenraglen bum mlynedd. Mae'r cyfnod o bum mlynedd yn hanfodol er mwyn:

- Darparu cynllun cyflawni manwl i'w gwneud yn bosibl gwireddu'r amcanion lefel uchel.
- Darparu ymrwymiad ariannol i ganiatáu digon o amser i fynd ati mewn modd digonol i gynllunio, dylunio a gweithredu cynlluniau a phrosiectau yn y dyfodol.
- Darparu trosolwg o'r ymrwymïadau sy'n debygol o godi yn y dyfodol o gynlluniau cyfredol.

Bydd y Grŵp Llywio Asedau Strategol yn cynnal asesiad blaenoriaeth o'r holl gynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen gyfalaf bum mlynedd. Bydd yr asesiadau'n ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau a blaenoriaethau a strategaethau'r Cyngor. Bydd canlyniadau'r asesiad yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac yna i'r Bwrdd Gweithredol i gael eu cymeradwyo. Bydd y

Rhaglen Gyfalaf yn cael ei chymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor Sir yn dilyn ymgynghori'n llawn â Phwyllgorau Craffu a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

1.3 Statws y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd

Bydd y rhaglen gyfalaf bum mlynedd yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo'n flynyddol fel rhan o broses pennu cyllideb y Cyngor Sir. Er bod y gyllideb yn cael ei phennu mewn egwyddor am gyfnod o bum mlynedd, bydd Blwyddyn 1 yn sefydlog, tra bydd y dyraniadau ar gyfer Blynnyddoedd 2 i 5 yn cael eu hystyried yn rhai dangosol gyda'r disgwyliad y bydd y cyllidebau'n cael eu cadarnhau cyn bod y cynlluniau'n cyrraedd statws Blwyddyn 1. Er y bydd cynlluniau sy'n symud ymlaen yn y rhaglen yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r broses flaenoriaethu ar gyfer y rhaglen bum mlynedd gyfan, dylid ystyried mai gwiriad ar hyfywedd parhaus y cynllun o'i gymharu â'r cynllun busnes o fewn y gyllideb benodedig yw hyn. Ni ddylid ystyried bod y broses hon yn gyfle i newid y rhaglen gymeradwy ar gyfer cynlluniau wrth edrych tua'r dyfodol, oni bai fod y cynlluniau busnes wedi newid yn sylweddol a bod amheuaeth yn eu cylch. **Mae'r egwyddor hon yn hanfodol er mwyn ei gwneud yn bosibl cynllunio a datblygu'r cynlluniau'n ddigonol trwy gydol y cyfnod cyn y cânt eu gweithredu.** Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y byddai'r cyllidebau gwirioneddol a gadarnhawyd ar gyfer pob Blwyddyn 1 newydd yn amrywio o gyllidebau dangosol a gytunwyd yn flaenorol.

Caiff statws y rhaglen gymeradwy bum mlynedd ei ddisgrifio isod gydag eglurhad pellach yn Nhabl 2.2.

Blwyddyn 1 – cynlluniau a gyflawnir yn y flwyddyn ariannol gyfredol gyda chynlluniau a chyllidebau sefydlog a gymeradwywyd yn flaenorol. Er bod y gyllideb ar gyfer y rhaglen bum mlynedd wedi cael ei phennu, ni chaniateir gwariant cynlluniedig sy'n uwch na'r gyllideb gymeradwy o fewn y flwyddyn a thanwariant dilynol yn y flwyddyn ganlynol/blynnyddoedd canlynol oni bai y cafwyd cymeradwyaeth gan y Bwrdd Gweithredol. Fodd bynnag, gellir caniatáu tanwariant o fewn y flwyddyn trwy lithriant y cytunwyd arno. Mae angen hysbysu ynghylch llithriannau mor gynnar â phosibl o fewn y flwyddyn ariannol er mwyn caniatáu amser i gynlluniau eraill gael eu dwyn ymlaen.

Blwyddyn 2 – cynlluniau a chyllidebau dangosol a gymeradwywyd ac yr ymrwymwyd iddynt yn flaenorol i'w gwneud yn bosibl i waith datblygu a dylunio manwl barhau o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol (Blwyddyn 1). Dylai cynlluniau busnes gael eu diweddarau gan y bydd gwybodaeth bellach wedi dod i law ers i'r cynllun busnes gwreiddiol gael ei baratoi ym Blwyddyn 3. Bydd hyfywedd parhaus cynlluniau Blwyddyn 2 yn cael ei adolygu fel rhan o'r asesiad blaenoriaeth cyn mynd i mewn i Flwyddyn 1. Felly ni ddylid ymrwymo i fynd mor bell ag adeiladu neu weithredu mewn perthynas â chynlluniau Blwyddyn 2 cyn bod y gyllideb wirioneddol ar gyfer y Flwyddyn 1 newydd sydd ar ddod wedi cael ei chadarnhau. Dylai dyluniadau ar gyfer cynlluniau gael eu datblygu yn barod ar gyfer adeiladu / gweithredu yn y flwyddyn ariannol ganlynol. Dim ond mân newidiadau i amcangyfrifon a manylion cynlluniau fyddai'n ddisgwyliedig ar gyfer cynlluniau Blwyddyn 2 cyn iddynt symud ymlaen i Flwyddyn 1.

Blwyddyn 3 – bydd cynlluniau wedi cael eu derbyn ar y rhaglen ac mae angen paratoi cynllun busnes i ddarparu manylion pellach yn ychwanegol at yr hyn a

ddarparwyd yn y Ffurflen Cynnig Prosiect. Yn ystod y flwyddyn, bydd angen i gynlluniau Blwyddyn 3 gael eu datblygu ymhellach trwy waith dichonoldeb, ymchwiliadau ac arolygon i gadarnhau amcangyfrifon o gostau, adnabod gofynion o ran tir os nad ydynt eisoes yn hysbys, ac amlygu problemau posibl. Ar gyfer y cynlluniau mwy, mae'n anochel y bydd newidiadau'n digwydd, a gall fod angen ail-amseru agweddau ar ddatblygu neu brynu tir o fewn y rhaglen gyfalaf ar y cyfan. Bydd hyfywedd parhaus cynlluniau Blwyddyn 3 yn cael ei adolygu fel rhan o'r asesiad blaenoriaeth cyn mynd i mewn i Flwyddyn 2.

Blynyddoedd 4 a 5 – bydd y cynlluniau hyn eisoes wedi cael eu derbyn i'r rhaglen mewn blynyddoedd blaenorol ac mae angen i'r Ffurflenni Cynnig Prosiect a gyflwynwyd yn flaenorol gael eu hadolygu a'u diweddarau ar gyfer unrhyw wybodaeth newydd sydd ar gael. Gall cynlluniau golli bri oherwydd amgylchiadau neu flaenoriaethau newidiol a bydd angen eu tynnu allan o'r rhaglen neu eu disodli.

Blwyddyn 6 – yn ystod y flwyddyn, bydd angen i Ffurflenni Cynnig Prosiect ar gyfer prosiectau cyfalaf posibl yn y swp nesaf o gynlluniau Blwyddyn 5 gael eu darparu yn seiliedig ar astudiaethau desg neu gwmpasu. Bydd asesiad blaenoriaeth yn cael ei gynnal gan y Grŵp Llywio Asedau Strategol yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd yn y Ffurflen Cynnig Prosiect ac mae system sgorio wedi cael ei llunio a fydd yn rhoi blaenoriaeth uchel, canolig neu isel i gynlluniau.

Eithriadau – cydnabyddir y bydd eithriadau lle mae cynlluniau neu gyfleoedd yn dod i'r amlwg nad oeddent yn hysbys ar yr adeg y cymeradwywyd y cynllun pum mlynedd. Gall fod yn wir hefyd bod y cynlluniau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried yn fwy o flaenoriaeth na rhai o'r cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen gymeradwy. Bydd angen i achosion o'r fath gael eu hystyried yn unigol ar sail **eithriadau** gan y Gweithgorau Prosiectau Adrannol a'r Grŵp Llywio Asedau Strategol i bennu'r angen i gyflwyno'r cynllun i'r rhaglen, y flaenoriaeth a roddir i hynny a'i ganlyniadau. Os penderfynir bod cynllun sy'n dod i'r amlwg yn fwy o flaenoriaeth na chynlluniau o fewn y rhaglen gymeradwy, yna gall fod angen oedi cyn parhau ag un neu fwy o'r cynlluniau cymeradwy ac ail-raglennu'r cynllun(iau) ym mlynnyddoedd dilynol y Rhaglen Gyfalaf, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Bwrdd Gweithredol / Cyngor Sir yn dilyn argymhelliad gan y Grŵp Llywio Asedau Strategol/Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae'n bosibl y bydd y Cyngor Sir ei hun yn ymgymryd â'r dasg ail-flaenoriaethu hon oherwydd y brys sydd gyda chynllun. Os caiff cynllun ei ohirio, dylid cydnabod bod risg na fydd y cynllun gohiriedig yn parhau os bydd blaenoriaethau'r rhaglen yn newid ar gyfer y flwyddyn berthnasol yn y dyfodol.

1.4 Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf

Er mwyn rheoli'r Rhaglen Gyfalaf yn effeithiol mae'n rhaid sicrhau:

- Bod Ffurflen Cynnig Prosiect yn cael ei chwblhau i ddechrau er mwyn blaenoriaethu cynlluniau ar gyfer eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf.*
- Bod cynllun busnes yn cael ei ddatblygu ar gyfer pob prosiect unwaith y mae'n cyrraedd Blwyddyn 3 yn y rhaglen.*
- Bod digon o amser a chyllideb i'w gwneud yn bosibl datblygu a mireinio prosiectau cyn y cyfnod adeiladu.*
- Bod y camau datblygu a symud ymlaen yn cael eu cynnwys o fewn*

amserlen y rhaglen.

- Bod amcangyfrifon yn cael eu paratoi'n gywir ar wahanol gamau yn ystod y broses o ddatblygu'r prosiect, yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael ar y pryd.*
- Bod amcangyfrifon yn cael eu mireinio fel rhan o'r broses ddylunio.*
- Bod y broses o gaffael tir a chyfyngiadau cyfreithiol wedi cael sylw.*
- Bod Gwariant a Chyllid yn cael eu monitro'n fisol.*
- Bod amrywiadau yng nghyfanswm y costau ac mewn costau blynyddol yn cael eu hadnabod a'u gwneud yn hysbys yn brydlon.*
- Bod llithriant o ran amseriad cynlluniau'n cael ei adnabod a'i wneud yn hysbys yn brydlon.*
- Y cydnabyddir cynlluniau newydd sy'n dod i'r amlwg.*
- Bod cyllid newydd yn cael ei adnabod.*
- Y bydd Arfarniad Ar Ôl Buddsoddi yn cael ei gynnal o bob cynllun neu raglen ar ôl eu cwblhau.*

Mae'r gweithdrefnau 'Rheoli Cyfalaf' a nodir yn y Llawlyfr hwn wedi cael eu mabwysiadu fel Polisi'r Awdurdod. Mae'n rhaid i'r holl swyddogion sy'n gysylltiedig â chynlluniau cyfalaf ymlynu wrth y gweithdrefnau.

Bydd y llawlyfr hwn yn rhoi canllaw cynhwysfawr i ddefnyddwyr ynghylch proses Rheoli Cyfalaf yr Awdurdod.

I egluro, nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i eitemau cyfalaf a gaiff eu prydlesu, eu rhentu neu eu llogi ar contract gan fod gan y rhain eu rheoliadau ariannol eu hunain. Yn achos y penawdau cyllideb Cymorth Adnewyddu, Adnewyddu Ardaloedd ac Atgyweiriadau Grŵp, Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Cynnal a Chadw wedi'i Gyfalafu, Addasiadau a chynlluniau Draenio Tir, nid yw'r polisi ond yn berthnasol o ran cyfanswm y gyllideb a ddelir, er bod yn rhaid i'r holl rannau cydrannol gydymffurfio â'r diffiniad o Wariant Cyfalaf a nodir ar dudalen 1.

Mae Grŵp Llywio Asedau Strategol yn bodoli a hwnnw'n cynnwys cynrychiolaeth drawsadrannol o haen reoli'r 'Penaethiaid', Cadeiryddion y Gweithgorau Prosiectau Adrannol a chynrychiolwyr eraill o blith uwch swyddogion. Bydd y grŵp yn cwrdd yn fisol a chaiff ei rôl ei nodi dan Adran 4.

Mae pum Gweithgor Prosiectau Adrannol wedi cael eu sefydlu i fonitro ac adrodd ar eu priod Raglenni Cyfalaf Pum Mlynedd. Bydd y Grwpiau yn adolygu ac yn monitro cyllidebau a'r rhaglen, ac yn ystyried y Ffurflenni Cynnig Prosiect ar gyfer cynlluniau newydd a Chynlluniau Busnes wrth i'r cynlluniau ddatblygu. Pan fo cynllun wedi cael ei gwblhau byddant hefyd yn adolygu'r Arfarniad Ar Ôl Buddsoddi. Bydd pob grŵp yn cynnwys swyddogion o bob Adain mewn Adran sy'n gyfrifol am brosiectau cyfalaf unigol neu ar y cyd y penderfynwyd arnynt ac a enwebwyd gan y Swyddogion Cyfrifol. Bydd swyddogion o'r Adain Gwasanaethau Ariannol (Cyfalaf a refeniw lle y bo'n briodol) a'r Gwasanaethau Eiddo yn mynychu'r cyfarfodydd hefyd, yn ogystal â swyddogion o'r Is-adran Trafnidiaeth a Pheirianneg, yr Uned Gaffael, y Tîm Eiddo Corfforaethol a'r Tîm Cyllid Allanol pan fo angen.

Mae'r Gweithgorau Prosiectau Adrannol yn monitro ac yn goruchwyllo prosiectau refeniw hefyd gan gynnwys y rhai a ariennir yn allanol. Gwneir hyn ar sail eithriadau gydag adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r grwpiau yn ôl y gofyn.

Mae'r pum grŵp fel a ganlyn:

- Adnoddau (Eiddo Corfforaethol, TG ac Adran y Prif Weithredwr).
- Addysg a Gwasanaethau Plant.
- Adfywio a Hamdden.
- Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai.
- Gwasanaethau Technegol.

Yn ychwanegol at yr uchod, gall is-grwpiau fodoli yn ôl yr hyn a benderfynwyd gan bob Adran.

1.5 Pecyn Cymorth Rheoli Prosiectau

Mae pecyn cymorth corfforaethol wedi cael ei ddatblygu i roi arweiniad a chymorth i swyddogion trwy'r broses rheoli prosiectau er mwyn cydymffurfio â gofynion a rheoliadau'r Awdurdod ac arianwyr Allanol (os yn berthnasol).

Bydd y pecyn cymorth yn tywys swyddogion trwy'r pedwar cam gwahanol yn y broses fel a ganlyn:

1. Datblygu syniad.
2. Datblygu'r prosiect.
3. Cyflawni'r prosiect.
4. Adolygu a chau'r prosiect.

Cysylltwch â'r Tîm Cyllid Allanol ar 01267 242358 / wsmith@sirgar.gov.uk i gael copi o'r pecyn cymorth.

2. AMSERLEN Y RHAGLEN GYFALAF

2.1 Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf - Trosolwg

Caiff yr amryw gamau o ran hyrwyddo cynllun cyfalaf i gael ei ystyried a'i gymeradwyo i gael ei gynnwys yn y rhaglen gyfalaf, a'r broses o gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd ar y cyfan eu nodi isod yn Nhabl 2.2. Ceir sylwebaeth fanylach yn Adran 3.1.

2.2 Tabl y Broses o Gymeradwyo Cynlluniau Cyfalaf / y Rhaglen Gyfalaf

Croes-gyfeiriad at 3.1	MIS	GWEITHGAREDD	CYFRIFOLDEB
Cam 1	Ebrill - Mehefin	Bydd adrannau yn paratoi:- 1) Ffurflenni Cynnig Prosiect newydd i gael eu paratoi ar gyfer cynlluniau Blwyddyn 6. 2) Ffurflenni Cynnig Prosiect wedi'u diweddaru ar gyfer Blynnyddoedd 4 a 5. 3) Cynlluniau busnes newydd ar gyfer cynlluniau Blwyddyn 3 4) Cynlluniau busnes wedi'u diweddaru ar gyfer cynlluniau Blwyddyn 2. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Gweithgor Prosiectau Adrannol perthnasol cyn cael eu cyflwyno'n derfynol er mwyn sicrhau y byddant yn dal dŵr pan greffir arnynt.	Adrannau, Gweithgorau Prosiectau Adrannol.
Cam 2	Gorffennaf - Awst	Y Grŵp Llywio Asedau Strategol i flaenoriaethu cynlluniau yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd mewn Ffurflenni Cynnig Prosiect a Chynlluniau Busnes a gyflwynwyd gan Adrannau. Bydd yr asesiadau'n ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau a blaenoriaethau a strategaethau'r Cyngor.	Y Grŵp Llywio Asedau Strategol
Cam 3	Medi-Hydref	Y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei choladu gan y Gwasanaethau Ariannol a'i chyflwyno mewn adroddiad i'r Tim Rheoli Corfforaethol a'r Bwrdd Gweithredol i gael ei chymeradwyo'n seiliedig ar asesiad blaenoriaeth gan y Grŵp Llywio Asedau Strategol.	Y Gwasanaethau Ariannol, Y Tim Rheoli Corfforaethol, Bwrdd Gweithredol
Cam 4	Tachwedd - Rhagfyr	Y Gwasanaethau Ariannol i gyflwyno adroddiadau ar gyfer ymgynghori â'r Partïon Perthnasol gan gynnwys Pwyllgorau Craffu, y Panel Dinasyddion, Cyngorau Tref a Chymuned a Thalwyr Ardrethi Diwydiannol a Masnachol.	Y Gwasanaethau Ariannol
Cam 5	Ionawr	Bydd y Bwrdd Gweithredol Rhagarweiniol yn ystyried y rhaglen gan ystyried sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad.	Y Bwrdd Gweithredol Rhagarweiniol
Cam 6	Chwefror	Bydd y Bwrdd Gweithredol / Cyngor Sir yn ystyried ac yn cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd gan ystyried sylwadau o'r ymgynghoriad.	Y Bwrdd Gweithredol/ Cyngor Sir
Cam 7	O fis Ebrill ymlaen	Monitro Cynlluniau Cyfalaf gan Swyddogion Cyfrifol, Prif Reolwyr Cyllidebau Prosiectau, Rheolwyr Cyllidebau Prosiectau, Rheolwyr Cyllidebau Archebion Gwaith a Gweithgorau Prosiectau Adrannol.	Swyddogion Cyfrifol, Prif Reolwyr Cyllidebau Prosiectau, Rheolwyr Cyllidebau Prosiectau, Rheolwyr Cyllidebau Archebion Gwaith a Gweithgorau Prosiectau Adrannol

3. RHEOLI'R BROSES GYFALAF – GWEITHDREFNAU MANWL

3.1 Y Broses o Gynnwys Cynllun/Rhaglen yn y Rhaglen Gyfalaf 5 Mlynedd

Cam 1 (Ebrill-Mehefin) Ffurflenni Cynnig Prosiect/Cynlluniau Busnes i gael eu paratoi.

Ffurflen Cynnig Prosiect

Dogfen un dudalen yw'r Ffurflen Cynnig Prosiect sy'n rhoi amlinelliad o elfennau allweddol y prosiect gan gynnwys disgrifiad o'r gwaith, yr hyn y mae'n mynd i'w gyflawni, unrhyw risgiau a'r costau a amcangyfrifir.

Rydym ar hyn o bryd yn y broses o adolygu dyluniad a chwestiynau'r Ffurflen Cynnig Prosiect a fydd ar gael ym Mehefin 2017.

Bydd angen paratoi Ffurflenni Cynnig Prosiect newydd ar gyfer cynlluniau ym Mlwyddyn 6 y rhaglen gyfalaf. Cyn eu cyflwyno byddant yn cael eu hasesu gan y Gweithgorau Prosiectau Adrannol i sicrhau bod prosiectau'n dderbyniol ac yn dal dŵr pan greffir arnynt. Bydd angen i Ffurflenni Cynnig Prosiect ar gyfer Blynnyddoedd 4 a 5 gael eu hadolygu hefyd a'u diweddarau os yw'n ofynnol.

Mae'n rhaid i'r Ffurflenni Cynnig Prosiect gael eu cwblhau ar-lein gan reolwyr prosiectau a'u cyflwyno i'w Pennaeth Gwasanaeth. Bydd neges yn cael ei hanfon yn awtomatig at y swyddogion priodol yn yr Adran Adnoddau, Y Prif Weithredwr a Chanolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru unwaith y bydd y prosiect wedi cael ei gymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaeth.

Cynllun Busnes

Mae'r cynllun busnes yn ddogfen fwy cynhwysfawr sy'n amcanu at ymhelaethu ar y Ffurflen Cynnig Prosiect wreiddiol a rhoi darlun llawnach o'r prosiect. Bydd angen iddo fanylu ar yr hyn y bydd y prosiect yn ei gyflawni, sut y bydd yn cael ei gyflawni, gan bwy a faint fydd yn ei gostio. Bydd angen iddo hefyd amlygu unrhyw gyfyngiadau posibl a allai effeithio ar y prosiect a'r risgiau y mae angen eu rheoli.

[Lawrlwythwch Templod ar gyfer Cynllun Busnes Prosiect \(.doc\).](#)

Mae angen i gynlluniau busnes manwl ar gyfer cynlluniau ym Mlwyddyn 3 gael eu llunio gan Adrannau er mwyn darparu mwy o fanylion am gynlluniau a gymeradwywyd yn flaenorol ym Mlwyddyn 4 yn seiliedig ar Ffurflenni Cynnig Prosiect a gyflwynwyd. Pan fo angen, dylid cynnwys cynrychiolwyr o'r Uned Gaffael Gorfforaethol, y Gwasanaethau Technegol, y Tîm Eiddo Corfforaethol a Chanolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru.

Dylai cynlluniau busnes ar gyfer cynlluniau Mlwyddyn 2 gael eu diweddarau hefyd os oes angen. Wrth i gynlluniau gael eu datblygu bydd gwybodaeth ychwanegol ar gael a fydd yn cryfhau'r achos busnes.

Dylai'r cynlluniau busnes gael eu hasesu gan y Gweithgorau Prosiectau Adrannol cyn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Llywio Asedau Strategol.

Dalier Sylw:

- Goblygiadau ar gyfer y Gyllideb Refeniw

Mae'n bwysig rhoi ystyriaeth ddwys i'r goblygiadau y bydd prosiect yn eu dwyn ar gyfer y gyllideb refeniw, yn y tymor byr a'r tymor hir. Efallai y bydd cynllun yn dwyn arbedion o ran cynnal a chadw parhaus mewn rhai achosion. Mewn achosion eraill, efallai y bydd y cynllun yn gwella'r lefel o wasanaeth i'n cwsmeriaid, ond fe allai ychwanegu at ofynion cynnal a chadw'r gwasanaeth yn y tymor hir, yn enwedig yn achos asedau ychwanegol. Gall fod angen darparu adnoddau ychwanegol megis cyllid, personél, eiddo, neu offer TG, neu fe all fod arbedion effeithlonrwydd.

Dylid nodi nad yw'r cynlluniau hynny sy'n dwyn goblygiadau sy'n golygu bod angen cyllid refeniw ychwanegol wedi cael eu derbyn i'r rhaglen gyfalaf dros y blynyddoedd diwethaf.

- Amcangyfrifon ar gyfer Cynlluniau a Gwaith Cyn y Cam Adeiladu

Dylid nodi bod peth wmbredd o waith i'w gwneud ar y cyfan er mwyn symud cynllun ymlaen o'r cam adnabod cychwynnol i'r cam gweithredu. Un o'r elfennau pwysicaf o'r Achos Busnes yw'r angen i adnabod a meintoli costau, a'r manteision a fydd yn deillio o weithredu'r cynllun. Felly mae'n hanfodol bod costau cynlluniau'n cael eu hadolygu trwy gydol yr amryw gamau datblygu, a bod y cynllun busnes yn cael ei adolygu fel y bo angen.

Dylai amcangyfrif o'r gyllideb amlinellol gael ei lunio i ddechrau trwy ymarfer desg/cwmpasu. Dylai amcangyfrifon mwy manwl o'r costau i'r gyllideb gael eu llunio yn ystod y cam dichonoldeb gydag amcangyfrifon manwl o'r costau'n dilyn yn ystod y cam dylunio manwl. Dylid sicrhau bod digon o amser a chyllideb ar gael i'w gwneud yn bosibl cynnwys y camau hyn yn y rhaglen, ac ystyrir bod hyn yn hanfodol o ran dileu'r angen am newidiadau sylweddol i'r cyllidebau y cytunwyd arnynt yn ystod y cam gweithredu. Mewn rhai achosion, yn enwedig cynlluniau mwy, bydd angen cwblhau arolygiadau amgylcheddol ac ymchwiliadau tir er mwyn ei gwneud yn bosibl cwblhau dyluniad manwl.

Os oes angen swm sylweddol o arian i ddatblygu cynllun busnes, a bod dim cyllid ar gael i gwblhau'r gwaith cwmpasu neu'r astudiaeth ddesg yna dylid codi'r mater trwy'r Gweithgor Prosiectau Adrannol, a'i gyflwyno i'r Grŵp Llywio Asedau Strategol i gael ystyriaeth bellach ar gyfer cyllid.

Cam 2 (Gorffennaf-Awst): Asesiad Blaenoriaeth gan y Grŵp Llywio Asedau Strategol

Bydd y Grŵp Llywio Asedau Strategol yn cynnal asesiad blaenoriaeth o'r holl gynlluniau sydd wedi'u cynnwys ym Mlynnyddoedd 2, 3, 4, 5 a 6 yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynwyd gan Adrannau mewn Ffurflenni Cynnig Prosiect (Blwyddyn 4, 5 a 6) a Chynlluniau Busnes (Blynnyddoedd 2 a 3). Bydd yr asesiad yn ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau a blaenoriaethau a strategaethau'r Cyngor. Bydd pob cynllun yn cael sgôr

blaenoriaeth ar y cyfan, sef uchel, canolig neu isel yn seiliedig ar ganlyniadau'r asesiad.

Cam 3 (Medi-Hydfref): Adroddiad i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Bwrdd Gweithredol

Bydd y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei choladu gan y Gwasanaethau Ariannol yn seiliedig ar ganlyniadau'r asesiad blaenoriaeth a gwblhawyd gan y Grŵp Llywio Asedau Strategol. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol er mwyn iddynt ei ystyried cyn cael ei anfon i'r Bwrdd Gweithredol i gael cymeradwyaeth a chefnogaeth at ddibenion ymgynghori.

Cam 4 (Tachwedd-Rhagfyr): Ymgynghori â Phartïon Perthnasol

Bydd yr adroddiad ar y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei gyflwyno at ddibenion ymgynghori i'r holl bartïon perthnasol, gan gynnwys Pwyllgorau Craffu, Cynghorau Tref/Cymuned, Talwyr Ardrethi Diwydiannol a Masnachol, Paneli Dinasyddion ac eraill. Bydd eu sylwadau'n cael eu nodi a'u coladu i'w cyflwyno yn y dyfodol.

Cam 5 (Ionawr): Y Bwrdd Gweithredol Rhagarweiniol

Mae'r Bwrdd Gweithredol Rhagarweiniol yn ystyried y Rhaglen Gyfalaf gan ystyried sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad yng Ngham 4. Bydd unrhyw ddiwygiadau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol yn cael eu gweithredu yn yr adroddiad newydd ar y Rhaglen Gyfalaf.

Cam 6 (Chwefror): Y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor Sir

Bydd yr adroddiad ar y rhaglen gyfalaf bum mlynedd yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor Sir gan ystyried y sylwadau a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori.

Cam 7 (O fis Ebrill ymlaen): Monitro Cynlluniau Cyfalaf

Unwaith y bydd y flwyddyn ariannol newydd yn dechrau bydd y broses fonitro sy'n cynnwys Swyddogion Cyfrifol, Prif Reolwyr Cyllidebau Prosiectau, Rheolwyr Cyllidebau Prosiectau, Rheolwyr Cyllidebau Archebion Gwaith a Gweithgorau Prosiectau Adrannol yn dechrau.

3.2 Rheoli Cynlluniau/Rhaglenni a Gymeradwywyd Cyn Iddynt Ddechrau

Rhan o rôl y Gweithgor Prosiectau Adrannol fydd rheoli rhaglen yr Adran a bydd yn cynnwys adolygu'r cynlluniau busnes wrth i'r cynlluniau gael eu datblygu.

3.2.1 Cynlluniau sy'n symud ymlaen o Flwyddyn 3 y Rhaglen i Flwyddyn 2

Er mwyn ei gwneud yn bosibl cynnwys cynllun yn y Rhaglen Gyfalaf, h.y. ym Flwyddyn 3, bydd cynllun busnes wedi cael ei lunio a'i dderbyn yn barod. Mae'n debygol mai amcangyfrif o gyllideb amlinellol yn seiliedig ar astudiaeth ddesg/gwmpasu fydd yr amcangyfrif o'r gost ar y cam hwn. Yn ystod y flwyddyn ariannol, bydd angen gwneud gwaith datblygu pellach ar y cynlluniau ym Flwyddyn 3 y rhaglen, i fireinio cynnwys y cynlluniau a'r amcangyfrifon o'u costau lle y bo'n berthnasol. Hefyd, gall fod angen cwblhau astudiaethau amgylcheddol, ymchwiliadau tir a.y.b.

- Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag adeiladu, dylid ymgynghori â'r Rheolwr Porth priodol (Eiddo neu Beirianeg) ar y cam cynharaf posibl ynghylch comisiynu unrhyw ymchwiliadau, arolygon neu astudiaethau desg / cwmpasu cychwynnol a gwaith i baratoi amcangyfrifon o'r costau gan Ymgynghorydd Fframwaith neu dîm dylunio mewnol.

Mae'r cam hwn yn ymwneud yn bennaf â chyflwyno mwy o fanylion i'r cynllun busnes gwreiddiol a fydd yn cynnwys:

- Amcangyfrif mwy manwl ac astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer y cynllun i gadarnhau'r Cynllun Busnes gwreiddiol.
- Bydd angen i gynlluniau busnes gael eu hadolygu os bydd natur, cost neu amseriad cynlluniau'n newid yn sylweddol.
- Bydd angen i'r rhaglen a'r proffil ariannu gael eu hadolygu. Gall fod enghreifftiau (yn enwedig ar gynlluniau adeiladu mwy) lle bydd angen ail-amseru neu ailbroffilio o ganlyniad i ofynion ac arolygon amgylcheddol, prosesau caffael tir a.y.b..
- Lle y bo'n briodol, bydd angen ailgyflwyno cynlluniau busnes diwygiedig i'w cymeradwyo cyn eu cadarnhau ym Flwyddyn 2 y rhaglen. Ni ddylid gwneud unrhyw waith pellach nes ceir cymeradwyaeth.
- Dylai'r holl gyllidebau fod yn gynllun-benodol ar gyfer symud ymlaen i Flwyddyn 2 lle y bo'n bosibl.

3.2.2 Cynlluniau sy'n symud ymlaen o Flwyddyn 2 y Rhaglen i Flwyddyn 1

Yn ystod flwyddyn ariannol, bydd angen i gynlluniau ym Flwyddyn 2 y rhaglen gael eu datblygu ymhellach o ran dyluniad manwl ac amcangyfrif manwl. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl paratoi dogfennau tendro yn brydlon i'w gwneud yn bosibl gwahodd tendrau lle ystyrir bod hynny'n briodol. Efallai y bydd y cyfnod hwn hefyd yn cynnwys arolygon amgylcheddol a mathau eraill o arolygon fel rhan o'r gwaith dylunio manwl.

- Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag adeiladu, dylid ymgynghori â'r Rheolwr Porth priodol (Eiddo neu Beirianeg) ynghylch comisiynu ymchwiliadau, arolygon neu astudiaethau desg / cwmpasu pellach a

gwaith i baratoi dyluniadau manwl ac amcangyfrifon o'r costau gan Ymgynghorydd Fframwaith neu dîm dylunio mewnol.

- Lle y bo'n briodol gellir ystyried dull 'Dylunio ac Adeiladu' / Cynnwys Contractwr yn Gynnar a gellir penodi Contractwr Fframwaith i gynorthwyo yn y cyfnod paratoi dyluniad. Byddai'r penodiad yn gyfyngedig i'r cyfnod cychwynnol hwn yn unig.

Bydd y cam hwn yn cynnwys cyflwyno manylion diwygiedig i'r cynlluniau busnes cyfredol hefyd lle y bo'n bosibl, a bydd y rheiny'n cynnwys:

- Amcangyfrifon manwl diwygiedig ar gyfer y cynllun lle y bo'n berthnasol.
- Amseriad diwygiedig ar gyfer y gwaith a'r proffil gwariant. Gall hyn fod oherwydd yr angen am arolygiadau/gwaith dylunio ychwanegol, am resymau amgylcheddol, oherwydd materion/oedi mewn perthynas â'r tir.
- Lle y bo'n briodol, bydd angen ailgyflwyno cynlluniau busnes diwygiedig i'w cymeradwyo cyn eu cadarnhau ym Flwyddyn 1 y rhaglen. Ni ddylid gwneud unrhyw waith pellach nes ceir cymeradwyaeth.
- Dylai'r holl gyllidebau fod yn gynllun-benodol ar gyfer symud ymlaen i Flwyddyn 1 lle y bo'n bosibl.

3.2.3 Caffael Tir

Bydd angen cytuno ynghylch caffael tir cyn i'r cynllun gychwyn. Mae negodiadau tir yn aml yn faith, yn enwedig ar gynlluniau mwy sy'n cynnwys sawl tîrffeddiannwr. Felly dylai gofynion o ran tir gael eu hadnabod mor gynnar â phosibl wrth ddatblygu cynllun, a bydd angen i'r broses caffael tir gael ei hamseru fel rhan o'r rhaglen gyffredinol ar gyfer y cynllun. Yn dilyn derbyn y cynllun ar y rhaglen gyfalaf bum mlynedd, bydd angen caffael tir o fewn y ddwy flynedd cyn bod y cynllun yn mynd i mewn i Flwyddyn 1. Os na ellir gwneud hyn, bydd yn arwain at oedi cyn dechrau'r cyfnod adeiladu a'i ail-raglennu yn unol â hynny. Dan amgylchiadau o'r fath bydd angen i'r wybodaeth hon gael ei gwneud yn hysbys i'r Gweithgor Prosiectau Adrannol cyn gynted â phosibl er mwyn ei gwneud yn bosibl adolygu'r rhaglen bum mlynedd. **Bydd angen i gyfarwyddwr y Gwasanaeth neu'r Swyddog Cyfrifol sicrhau y cafwyd cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol i'r cynllun sy'n sail i'r gofyniad i brynu tir cyn cychwyn gweithdrefnau caffael tir.** Dylid ceisio cyngor gan yr Adain Eiddo Corfforaethol ynghylch cychwyn gweithdrefnau Gorchymyn Prynu Gorfodol lle na ellir dod i gytundeb.

3.2.4 Arolygon ac Ymchwiliadau Rhagarweiniol

Bydd gwaith arolygu ac ymchwilio helaeth yn angenrheidiol ar gyfer rhai cynlluniau. Felly dylai'r gwaith arolygu gael ei hadnabod mor gynnar â phosibl wrth ddatblygu cynllun, a gorau oll os gwneir hynny yn ystod cam yr astudiaeth gwmpasu/y cynllun busnes. Yn dilyn derbyn y cynllun ar y rhaglen gyfalaf bum mlynedd, bydd angen symud ymlaen ag arolygon ac ymchwiliadau cyn gynted â phosibl o fewn y ddwy flynedd cyn i'r cynllun fynd i mewn i Flwyddyn 1. Efallai y bydd angen cyflwyno cynlluniau busnes

diwygiedig gan ddibynnu ar ganfyddiadau'r astudiaethau. Gall fod angen oedi cyn symud ymlaen i'r cyfnod adeiladu o ganlyniad i waith arolygu parhaus. Dan amgylchiadau o'r fath bydd angen i'r wybodaeth hon gael ei gwneud yn hysbys i'r Gweithgor Prosiectau Adrannol cyn gynted â phosibl er mwyn ei gwneud yn bosibl adolygu'r rhaglen bum mlynedd.

Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag adeiladu, dylid ymgynghori â'r Rheolwr Porth priodol (Eiddo neu Beirianeg) ar y cam cynharaf posibl ynghylch comisiynu ymchwiliadau, arolygon neu astudiaethau desg / cwmpasu a gwaith i baratoi dyluniadau manwl ac amcangyfrifon o'r costau.

3.2.5 Tendro am Gynllun

Bydd angen i'r broses gaffael ar gyfer y cynlluniau mwy, yn enwedig pan fo Cyfarwyddbau Caffael yr UE yn berthnasol, gael ei chychwyn rywbryd cyn i'r cynlluniau fynd i mewn i Flwyddyn 1 y rhaglen, er mai dim ond ar ôl cadarnhad blynyddol o'r rhaglen 5 mlynedd, ac yn enwedig y gyllideb ar gyfer y Flwyddyn 1 sydd ar ddod, y dylid gosod contractau. Fodd bynnag, mae'n rhaid cofio nad yw tendrau sy'n gysylltiedig â'r G.E. ond yn agored i'w derbyn am hyd at chwe mis a bod tendrau nad ydynt yn gysylltiedig â'r G.E. yn agored i gael eu derbyn am yr amser a nodir ar y fanyleb tendro.

Ni ddylid gwahodd tendrau nes:

- Bod Cynllun Busnes diwygiedig wedi cael ei baratoi lle mae newidiadau sylweddol wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd.
- Bod amcangyfrif manwl, pendant o'r costau'n bodoli, a bod hwnnw o fewn y gyllideb sydd ar gael.
- Bod cyllid mewnol ac allanol wedi cael ei sicrhau.
- Bod tir wedi cael ei gaffael neu gytundeb i fynd ar dir wedi cael ei gwblhau lle y bo'n berthnasol, a bod adeiladwaith hwylustod wedi cael ei gytuno.
- Bod cyfyngiadau cyfreithiol wedi cael sylw.

Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag adeiladu, **dylid ymgynghori â'r Rheolwr Porth priodol (Eiddo neu Beirianeg) ar y cam cynharaf posibl** ynghylch comisiynu gwaith adeiladu gan Contractwr Fframwaith priodol neu Sefydliad Llafur Uniongyrchol mewnol. Lle y bo'n ofynnol gall 'mini-gystadlaethau' ymhlith y Contractwyr Fframwaith a benodwyd fod yn angenrheidiol. Ni ddylid gosod unrhyw contract adeiladu y tu allan i'r Broses Porth.

Ni ddylid gosod contract na rhoi cyfarwyddyd i symud ymlaen i'r cyfnod adeiladu nes:

- Bod y pris yn y tendr wedi cael ei dderbyn, a'i fod o fewn y gyllideb sydd ar gael.
- Bod cadarnhad wedi cael ei roi y gellir mynd ar dir.
- Bod cadarnhad wedi cael ei roi bod y cynllun yn y Rhaglen yn y flwyddyn ddilynol h.y. yn y Flwyddyn 1 newydd.

3.2.6 Taliadau Cadw

Bydd angen i lwfans ar gyfer talu arian cadw gael ei gynnwys yn y rhaglen bum mlynedd, yn enwedig ar gyfer y cynlluniau mwy. Wrth i gynlluniau Blwyddyn 2 gael eu datblygu, gellir cyflwyno amcangyfrif o'r symiau cadw i mewn i'r cynlluniau busnes ar gyfer Blwyddyn 3. Ar gyfer cynlluniau llai lle mae'r symiau cadw'n debygol o fod yn fach, bydd angen i'r symiau cadw gael eu hadolygu gan y Gweithgor Prosiectau Adrannol. Gellid gwneud cynllun busnes cyfunol ar gyfer y cynlluniau llai ar gyfer cynlluniau busnes dilynol ym Mlwyddyn 3, y gellid eu mireinio wrth iddo symud ymlaen i Flwyddyn 1. Fel arall dylid ceisio cyngor penodol gan yr Adain Gwasanaethau Ariannol o ran sut orau i ymdrin â'r taliadau cadw, a pha un a ellir cwrdd â'r symiau cadw trwy lithriant cynllun-benodol.

3.3 Monitro Cynlluniau/Rhaglenni Cyfalaf sydd ar y Gweill neu yn y Cyfnod Datblygu

3.3.1 Elfennau Allweddol

Yr elfennau allweddol o reoli'r cynlluniau sydd ar y gweill yw:

- *Bod yr holl wariant cymeradwy o fewn y gyllideb y cytunwyd arni.*
- *Bod gwariant a chyllid yn cael eu monitro'n barhaus.*
- *Bod amrywiadau ariannol yn cael eu hadnabod ac yr adroddir arnynt yn brydlon.*
- *Bod cynnydd y cynllun yn cael ei adolygu'n fisol, gydag unrhyw ail-amseru neu ailbroffilio sylweddol yn cael eu hadnabod.*
- *Bod lithriant yn cael ei adnabod ac yr adroddir arno'n brydlon.*

3.3.2 Cyfrifoldebau

Y Swyddog Cyfrifol (y Pennaeth Gwasanaeth fel arfer-gweler Adran 4) sy'n cadw **cyfrifoldeb cyffredinol am y Cynllun neu Raglen Unigol o gynlluniau o fewn y rhaglen bum mlynedd**, ni waeth pa un a yw unrhyw ddyletswyddau'n cael eu dirprwyo i swyddog arall o fewn yr Adran/Adain neu'r tu allan iddi ai peidio.

Bydd Prif Reolwyr Cyllidebau Prosiectau a Rheolwyr Cyllidebau Prosiectau yn cael eu penodi gan y Swyddog Cyfrifol (gall benodi ei hun) a gall fod o fewn Adran/Adain y Swyddog Cyfrifol neu'r tu allan iddi. Mae'r swyddogion hyn yn gyfrifol am gynorthwyo'r Swyddog Cyfrifol ac mae ganddynt ddyletswyddau penodol i broffilio'r cyllidebau a rheoli cynlluniau.

Hefyd, gall y Rheolwr Cyllideb Prosiect ddirprwyo cyfrifoldeb ymhellach trwy benodi Rheolwyr Cyllidebau Archebion Gwaith (eto, gall benodi ei hun) i reoli cyllidebau penodol sy'n ymwneud ag agweddau penodol ar y cynllun e.e. prynu tir, dylunio a.y.b. Gall y Rheolwr Cyllideb Archebion Gwaith fod o fewn Adran/Adain y Rheolwr Cyllideb Prosiect neu'r tu allan iddi, a bydd yn gyfrifol am ganlyn arni â gwaith ac awdurdodi taliad o fewn y gyllideb ddirprwyedig. Ceir diffiniadau mwy penodol yn Adran 4.

3.3.3 Y Weithdrefn Fonitro

Dylai'r cylch monitro fod yn unol â'r canllawiau canlynol:

- Dylid cynnal cyfarfodydd misol i wirio cynnydd cynlluniau gydag ymgynghorwyr, cynghorwyr technegol a chontractwyr fel y bo angen i adolygu cynnydd cynlluniau unigol ac adnabod unrhyw broblem bosibl a allai effeithio ar y cynllun o ran llithriant, newid amseriad neu'r proffil gwariant, a gorwariant neu danwariant. Gorchwyl i bob Adran/Adain fydd cytuno ar y swyddogion sydd yn y sefyllfa orau i fynychu cyfarfodydd ar gynnydd cynlluniau, ond dylai'r rhain fod ar lefel Rheolwyr Prosiectau neu Brif Rheolwyr Prosiectau.
- Bydd Adroddiadau Ariannol Monitro Cyfalaf sy'n nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf yn cael eu dosbarthu i'r amryw Reolwyr Cyllidebau Archebion Gwaith o fewn 5 diwrnod i ddiwedd pob mis gan yr Adain Gwasanaethau Ariannol.
- Er y bydd adroddiadau'n cael eu hanfon bob mis, dim ond bob deufis y bydd yn ofynnol i Reolwyr Cyllidebau Archebion Gwaith gyflwyno datganiadau monitro. Bydd y rhain yn dechrau ym mis Gorffennaf bob blwyddyn ac yn cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill i fis Mehefin ac yna'n parhau bob yn ail fis tan ddiwedd y flwyddyn.
- Dylai Rheolwyr Cyllidebau Archebion Gwaith adolygu'r adroddiad ariannol mewn perthynas â chynlluniau y maent yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt (yn ôl y cyfrifoldeb a ddirprwywyd gan y Rheolwyr Cyllidebau Prosiectau) a diweddarau'r wybodaeth ariannol fel y bo'n briodol, gan roi'r ymrwymadau hyd at ddiwedd y mis, hyd at ddiwedd y flwyddyn a hyd at ddiwedd y cynllun a chan adnabod unrhyw broblemau. Wedyn dylai'r priod adroddiadau ariannol gael eu dychwelyd i'r Adain Gwasanaethau Ariannol o fewn yr amser a bennwyd.
- Wedyn bydd yr Adain Gwasanaethau Ariannol yn mewnbynnu'r wybodaeth hon i'r system fonitro gyfrifiadurol. Yn dilyn hynny, o fewn 5 diwrnod, bydd adroddiadau'n cael eu darparu ar gyfer y Rheolwyr Prosiectau perthnasol ar eu cynlluniau er mwyn iddynt wneud sylwadau arnynt. Dylai'r sylwadau hyn gael eu dychwelyd i'r Adain Gwasanaethau Ariannol o fewn 5 diwrnod gwaith arall.
- Yn y misoedd hynny lle mae datganiadau monitro ffurfiol yn ofynnol bydd y Gweithgor Prosiectau Adrannol yn cwrdd yn ystod wythnos olaf y mis i drafod yr adroddiad ariannol diweddaraf a chynnydd cynlluniau. Bydd y Grŵp yn penderfynu ar y cyd ynghylch materion sy'n ymwneud â rhaglen yr Adran yn y flwyddyn gyfredol, llithriant, gorwariant / tanwariant, costau alldro a ragwelir, trosglwyddiadau a newidiadau.
- Yn y misoedd hynny lle nad yw adroddiadau ffurfiol yn ofynnol, bydd cyfarfodydd yn cael eu hamserlennu a rhagwelir y byddant yn caniatáu amser i ystyried Ffurflenni Cynnig Prosiect/Cynlluniau

Busnes, arfarniadau ar ôl buddsoddi a materion eraill yn ôl disgresiwn Cadeirydd pob Gweithgor Prosiectau Adrannol. Bydd y gweithgor hefyd yn cynghori'r Tîm Rheoli Adrannol ac yn cyflwyno argymhellion iddo ynghylch y rhaglen gyfalaf 5 mlynedd. Rhoddir mwy o fanylion yn Adran 4 ar rôl y Gweithgor Prosiectau Adrannol.

- Bydd yr Adain Gwasanaethau Ariannol yn darparu adroddiadau ar gyfer Timau Rheoli Adrannol, y Grŵp Llywio Asedau Strategol, Pwyllgorau Craffu a'r Bwrdd Gweithredol/Cyngor Sir fel y bo'n ofynnol.

3.4 Rheoli Gorwariant / Tanwariant Posibl ar Gynlluniau / Rhaglenni Unigol

3.4.1 Trosglwyddo rhwng Cynlluniau Cyfalaf

Bydd achlysuron pan fydd gorwariant posibl ar rai cynlluniau a thanwariant posibl ar gynlluniau eraill. Yn y sefyllfa hon caniateir trosglwyddo arian yn amodol ar y terfynau canlynol:

- Mae'n rhaid i drosglwyddiadau hyd at a chan gynnwys **£50,000** y cynllun o fewn y Rhaglen Adrannol gael eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth. Gall yr awdurdod hwn gael ei ddirprwyo i Benaethiaid Gwasanaeth ar gyfer eu priod feysydd gwasanaeth. Bydd yr angen i drosglwyddo'n seiliedig ar argymhelliad y Tîm Rheoli Adrannol/Gweithgor Prosiectau Adrannol. Sylwer y bydd yr Adain Gwasanaethau Ariannol yn cyfrannu at wneud yr argymhelliad fel rhan o'r Gweithgor Prosiectau Adrannol.
- Mae'n rhaid i drosglwyddiadau dros **£50,000** hyd at a chan gynnwys **£100,000** gael eu cymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol.
- Mae'n rhaid i drosglwyddiadau hyd at a chan gynnwys **£100,000** rhwng Adrannau o fewn y Rhaglen Gyfalaf gyffredinol gael eu cymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol.
- Mae'n rhaid i'r Bwrdd Gweithredol gymeradwyo trosglwyddiadau dros **£100,000**.

Ar bob achlysur mae'n **RHAID** gwneud y trosglwyddiad yn hysbys i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol/cynrychiolydd fel rhan o fonitro'r gyllideb. Y ffigyrau a nodir yw'r uchafswm a ganiateir trwy gydol oes unrhyw gynllun, h.y. bydd y terfynau ar gyfer trosglwyddiadau'n berthnasol i unrhyw symiau cronol a gaiff eu trosglwyddo yn ystod oes y prosiect/cynllun.

3.4.2 Gorwariant – Dim Posibilrwydd o Drosglwyddo

Lle mae gorwariant posibl yn cael ei adnabod naill ai wrth **broffilio'r** gwariant yn ystod blwyddyn ariannol neu mewn perthynas â **chost y cynllun ar y cyfan** a lle nad oes posibilrwydd o drosglwyddo, mae'n rhaid cyfleu hyn i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol, y Cyfarwyddwr Gwasanaeth a'r Swyddog Cyfrifol. Mae angen i'r ffurflen fonitro swyddogol

gael ei llofnodi yn y cyfarfodydd monitro misol. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol yn paratoi Adroddiad i gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol a hwnnw'n nodi:

- y gwariant ychwanegol sy'n ofynnol.
- y rhesymau dros yr amrywiadau.
- yr opsiynau i gyfyngu ar y gorwariant e.e. diwygio'r fanyleb derfynol.
- goblygiadau'r gorwariant o ran ariannu.

3.4.3 Tanwariant – Dim Posibilrwydd o Drosglwyddo

Lle mae tanwariant posibl yn cael ei adnabod naill ai wrth broffilio'r gwariant yn ystod blwyddyn ariannol neu mewn perthynas â chost y cynllun ar y cyfan a lle nad oes posibilrwydd o drosglwyddo, mae'n rhaid cyfleu hyn i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol, y Cyfarwyddwr Gwasanaeth a'r Swyddog Cyfrifol, er mwyn ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau ynghylch cyflymu cynlluniau eraill a gymeradwywyd yn y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd. Mae angen i'r ffurflen fonitro swyddogol gael ei llofnodi yn y cyfarfodydd monitro misol. Fodd bynnag, cyn y gellir argymhell cynllun ar gyfer ei gyflymu, mae'n rhaid bod amcangyfrif pendant o'r costau a'r cynllun busnes wedi cael eu diweddarau. Hefyd, mae'n rhaid i'r astudiaeth ddichonoldeb a/neu'r dyluniad manwl fod wedi symud yn ddigon pell ymlaen, ac mae'n rhaid i'r cynllun beidio â mynd y tu hwnt i'r gyllideb gymeradwy.

3.4.4 Llithriant

Yn yr un modd, lle ceir llithriant mewn cynllun am resymau dilys, gall Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, yn dilyn ymgynghori â'r Gweithgorau Prosiectau Adrannol, roi cymeradwyaeth i gyflymu unrhyw gynllun a gymeradwywyd o fewn y rhaglen gyfalaf 5 mlynedd, lle mae gan y cynllun a gyflymir amcangyfrifon cyfoes a manwl o'r costau, lle mae cynlluniau busnes wedi cael eu paratoi a lle mae'r dyluniad wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Y disgwyliad fyddai bod yr adran y mae ei chynllun yn cael ei gyflymu yn 'ad-dalu' i'r adran y mae ei chynllun yn cael ei ohirio yn y flwyddyn berthnasol yn y dyfodol. **Fodd bynnag, dylid nodi na ellir cyflymu cynllun os ymrwymwyd yn rhannol i'r prosiect Blwyddyn 1 y bwriedir ei ohirio. Os caiff cynllun ei ohirio, dylid cydnabod wedyn bod risg na fydd y cynllun gohiriedig yn symud yn ei flaen os bydd y Cyngor yn newid ei flaenoriaethau ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf am y flwyddyn berthnasol yn y dyfodol.** Er mwyn cychwyn hyn, mae angen i'r ffurflen fonitro swyddogol gael ei llofnodi yn y cyfarfodydd monitro misol.

3.5 Arfarniad Ar Ôl Buddsoddi

Wedi iddynt gael eu cwblhau, bydd angen i gynlluniau gael eu hadolygu a bydd angen adrodd arnynt er mwyn canfod gwelliannau posibl i gynorthwyo gyda Chynlluniau Cyfalaf yn y dyfodol, ac i asesu'r canlyniadau trwy eu cymharu â'r Cynllun Busnes gwreiddiol.

Bydd y Swyddog Cyfrifol (neu swyddogion y dirprwywyd cyfrifoldeb iddynt gan y Swyddog Cyfrifol) yn paratoi Arfarniad Ar Ôl Buddsoddi pan fydd cynllun wedi cael ei gwblhau, a bydd adroddiad ar hwn yn cael ei gyflwyno i'r Gweithgor Prosiectau Adrannol.

Bydd amseriad yr adolygiad yn dibynnu ar natur y cynllun. Fel rheol dylid ei gynnal un flwyddyn ar ôl cwblhau'r cynllun er mwyn caniatáu digon o amser i'r cynllun ddod yn llwyr weithredol i'w gwneud yn bosibl cynnal asesiad teg o'r meini prawf yn y Cynllun Busnes.

Bydd unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau hyn ac yr ystyrir eu bod o fudd i'r broses gyfalaf yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Llywio Asedau Strategol ar gyfer ystyriaeth bellach.

Ceir dolen isod i ffurflen yr Arfarniad Ar Ôl Buddsoddi.

<http://brian/workspace/toolkit/SiteAssets/docs/Capital%20Projects%20-%20Post%20Investment%20Appraisal%20Form.doc>

4. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Y Cyngor Sir

- Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf bum mlynedd a'i chyllid.

Y Bwrdd Gweithredol

- Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf 5 mlynedd a'i chyllid, a chyflwyno argymhelliad i'w chymeradwyo i'r Cyngor Sir.
- Monitro'r Rhaglen Gyfalaf trwy gydol y flwyddyn.
- Cymeradwyo trosglwyddiadau uwch na £100,000 rhwng cynlluniau unigol.

Pwyllgorau Craffu

- Mynegi barn ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf bum mlynedd a flaenoriaethir fel rhan o'r broses ymgynghori.
- Cael yr adroddiadau ar wariant cyfalaf/cynnydd bob chwarter a chraffu arnynt.
- Cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol ynghylch unrhyw faterion mewn perthynas â'r Rhaglen Gyfalaf y mae angen rhoi sylw iddynt.

Y Tîm Rheoli Corfforaethol

- Argymhell Rhaglen Gyfalaf 5 mlynedd a flaenoriaethir wrth y Bwrdd Gweithredol.

Y Grŵp Llywio Asedau Strategol

- Datblygu a chynnal ar sail dreigl 'weledigaeth' fwy hirdymor ar gyfer gofynion buddsoddi cyfalaf yr awdurdod, ynghyd â'r cyllid tebygol (ac eithrio gwariant cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai).
- Darparu argymhellion ac opsiynau ar gyfer blaenoriaethau i'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol.
- Cydgysylltu'r broses o ddatblygu'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a chynlluniau eraill ar gyfer rheoli asedau.
- Goruchwyllo'r Strategaeth Gyfalaf Cynnal a Chadw.
- Archwilio ac adnabod ffynonellau cyllid eraill posibl.
- Datblygu a rheoli'r Ddogfen Rheoli Cyfalaf.
- Hyrwyddo arfer gorau o ran rheoli cyfalaf a phrosiectau.
- Cyfrannu i'r Grŵp Thematig Defnyddio Adnoddau'n Well.
- Sefydlu Gweithgorau i wneud gwaith manwl, fel y bo angen.

Y Tîm Rheoli Adrannol

- Ystyried Ffurflenni Cynnig Prosiect a Chynlluniau Busnes adrannol a gyflwynir gan y Gweithgor Prosiectau Adrannol.
- Blaenoriaethu Ffurflenni Cynnig Prosiect/Cynlluniau Busnes a'u hargymhell wrth y Grŵp Llywio Asedau Strategol trwy'r Adain Gwasanaethau Ariannol.
- Adolygu argymhellion "ar ganol blwyddyn" a wneir gan y Gweithgor Prosiectau Adrannol o ganlyniad i newidiadau i'r rhaglen neu gostau alldro a ragwelir, gan gynnwys trosglwyddiadau.

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol

Mae cyfrifoldebau cyllidebol cyffredinol wedi'u cynnwys yn Llawlyfr y Gyllideb ac mae'r canlynol yn berthnasol yn benodol i gyfrifoldeb y Cyfarwyddwr am Gyfalaf:

- Adolygu a chymeradwyo Ffurflenni Cynnig Prosiect/Cynlluniau Busnes ar gyfer y Rhaglen Adrannol.
- Adnabod Swyddog Cyfrifol ar gyfer y Cynllun(iau) (Pennaeth Gwasanaeth fel arfer).
- Adnabod cynrychiolydd adrannol ar y Grŵp Llywio Asedau Strategol.
- Cymeradwyo trosglwyddiadau rhwng cynlluniau adrannol hyd at £50,000 y cynllun.

Y Cyfarwyddwr Adnoddau

- Nodi canlyniadau'r rhaglen bum mlynedd o ran cyllid a'r effaith ar y Dangosyddion Darbodus.

Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol

- Coladu, amcangyfrif ac adolygu dulliau o ariannu'r rhaglen gyfalaf
- Monitro Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar adroddiadau ar wariant a ddarperir gan y Swyddog Cyfrifol neu Reolwyr Cyllidebau trwy'r Gweithgor Prosiectau Adrannol.
- Cyngori'r Bwrdd Gweithredol ynghylch gorwariant, tanwariant neu lithriant posibl ar gynlluniau unigol.
- Darparu adroddiadau misol ar gyfer Swyddogion Cyfrifol ar wariant gwirioneddol, a thrafod hyn yn y Gweithgor Prosiectau Adrannol.
- Paratoi Adroddiadau i'r Grŵp Llywio Asedau Strategol eu hystyried ar gynydd gyda'r Rhaglen Gyfalaf, gan gynnwys amrywiad mewn gwariant.
- Cymeradwyo trosglwyddiadau rhwng £50,000 a £100,000.
- Cymeradwyo trosglwyddiadau hyd at £100,000 rhwng adrannau.
- Darparu adroddiadau ar gyfer y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Grŵp Llywio Asedau Strategol, Pwyllgorau Craffu a'r Bwrdd Gweithredol ar wariant cyfalaf.
- Cymeradwyo cynigion i symud cynlluniau rhwng blynnyddoedd fel y bo angen.

Y Swyddog Cyfrifol **

Mae cyfrifoldebau cyllidebol cyffredinol wedi'u cynnwys yn Llawlyfr y Gyllideb ac mae'r canlynol yn berthnasol yn benodol i gyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifol am Gyfalaf:

- Paratoi Ffurflenni Cynnig Prosiect / Cynlluniau Busnes.
- Rheoli Prosiectau, monitro perfformiad o'i gymharu â'r Cynllun Busnes, adrodd wrth y Gweithgor Prosiectau Adrannol a Phennaeth y Gwasanaethau Ariannol yn fisol.
- Rheolaeth Ariannol. (gwariant ac incwm).
- Hysbysu'r Gweithgor Prosiectau Adrannol a Phennaeth y Gwasanaethau Ariannol yn brydlon ynghylch amrywiadau mewn Cynlluniau.
- Mynychu cyfarfodydd y Grŵp Llywio Asedau Strategol.
- Paratoi Arfarniadau Ar Ôl Buddsoddi.
- Rhoi cymeradwyaeth i gaffael tir sy'n ofynnol ar gyfer cynlluniau cyfalaf.

- Dirprwyo'r dyletswyddau a restrir uchod ac enwebu Prif Reolwyr Cyllidebau Prosiectau, Rheolwyr Cyllidebau Prosiectau a Rheolwyr Cyllidebau Archebion Gwaith fel y bo'n briodol, gan gadw **cyfrifoldeb cyffredinol** am y prosiect a'r gyllideb.
- Adrodd ar gynnydd a'r sefyllfa gyllidebol wrth Bwyllgorau Craffu bob chwarter.
- Gall Penaethiaid Gwasanaeth gymeradwyo trosglwyddiadau hyd at £50,000 ar gyfer cynlluniau o fewn eu maes gwasanaeth, ar yr amod bod yr awdurdod hwn wedi cael ei ddirprwyo gan eu priod Gyfarwyddwyr Gwasanaeth.

****Bydd Swyddog Cyfrifol ar lefel Pennaeth Gwasanaeth yn bennaf ond gall gael ei ddynodi gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd.**

Prif Rheolwyr Cyllidebau Prosiectau a Rheolwyr Cyllidebau Prosiectau.

Gall y Swyddog Cyfrifol ddirprwyo cyfrifoldebau cyllidebol i Brif Reolwr Cyllidebau Prosiectau (e.e. ar gyfer rhaglen sy'n cynnwys nifer o brosiectau unigol). Gall y Prif Reolwr Cyllidebau Prosiectau enwebu Rheolwyr Cyllidebau Prosiectau ar gyfer prosiectau unigol o fewn y brif raglen. Gall y Rheolwyr Prosiectau hyn fod o fewn Adain/Adran y Swyddog Cyfrifol neu'r tu allan iddi. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys:

- Cynorthwyo'r Swyddog Cyfrifol i baratoi amcangyfrifon o'r gyllideb.
- Awdurdodi gwariant dan gyllidebau ac eithrio'r rhai a ddirprwyd i Reolwyr Cyllidebau Archebion Gwaith.
- Monitro gwariant ac incwm ar gyfer Cyllidebau Archebion Gwaith.
- Bod yn gyfrifol am yr holl nwyddau a gwasanaethau a archebir mewn perthynas â'u cyllidebau hwy eu hunain, hyd yn oed lle mae'r cyfrifoldeb am weinyddu prosesau archebu o'r fath wedi cael ei ddirprwyo i eraill.
- Proffilio cyllidebau i hwyluso gwaith monitro misol.
- Adrodd wrth y Swyddog Cyfrifol/Prif Reolwr Cyllidebau Prosiectau ar berfformiad mewn perthynas â chyllidebau.

Y Gweithgor Prosiectau Adrannol

Mae'r Gweithgorau Prosiectau Adrannol wedi cael eu sefydlu i fonitro ac adrodd ar eu priod raglenni cyfalaf Adrannol. Mae eu hamodau gorchwyl fel y cytunwyd gan y Grŵp Llywio Asedau Strategol fel a ganlyn:

- Adnabod, cychwyn, datblygu a rheoli Rhaglen Gyfalaf tymor canolig a hir y Gyfarwyddiaeth a phrosiectau refeniw ganddi a ariennir â chyllid allanol, yn unol â'r paramedrau a bennwyd gan y Grŵp Llywio Asedau Strategol.
- Goruchwylio'r broses o fonitro prosiectau cyfalaf a refeniw'r Adran a phenderfynu ynghylch blaenoriaethau a cheisio trosglwyddiadau lle y bo angen o fewn y cyllidebau dyranedig ar gyfer yr Adran.
- Ymgysylltu â'r Gweithgor Cyllid Allanol i archwilio a sicrhau ffynonellau cyllid cynaliadwy.
- Hyrwyddo arfer gorau o ran rheoli prosiectau yn yr Adran. Gweithredu Gweithdrefnau a Pholisïau Rheoli Prosiectau'r Cyngor a sicrhau y cydymffurfir â hwy.

- Hyrwyddo arfer gorau o ran cydymffurfio ag amodau grantiau gan sicrhau yr ymlynir wrth y Llawlyfr Prosiectau ar Gydymffurfio ag Amodau Grantiau a pholisïau a gweithdrefnau eraill.
- Gwneud argymhellion ar gyfer cywiro unrhyw orwariant neu danwariant gan brosiectau ac uwchgyfeirio unrhyw faterion ynghylch cyllidebau neu gydymffurfio at y Grŵp Llywio Asedau Strategol neu'r Tîm Rheoli Adrannol, lle y bo angen.
- Sicrhau bod Gwariant Cyfalaf yn cael ei reoli mewn modd sy'n cydymffurfio â Dogfen Rheoli Cyfalaf y Cyngor.
- Darparu'r fforwm ar gyfer cyswllt y Gyfarwyddiaeth â Grŵp Llywio Asedau Strategol y Cyngor.
- Cwrdd yn ffurfiol yn unol ag amserlen Fonitro'r Gweithgor Prosiectau.
- Darparu mewnbwn o ran datblygu'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a Chynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau.

Cadeirydd y Gweithgor Prosiectau Adrannol

- Sicrhau bod holl argymhellion y Gweithgor Prosiectau Adrannol mewn perthynas â throsglwyddiadau/llithriannau'n cael eu cofnodi'n briodol ac y cedwir cofnodion o'r holl benderfyniadau.
- Darparu adroddiad diweddar yn y Grŵp Llywio Asedau Strategol ar unrhyw faterion sy'n codi yn y Gweithgor Prosiectau Adrannol.
- Codi unrhyw faterion o'r Gweithgor Prosiectau Adrannol gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol/ Penaethiaid Gwasanaeth yn y Tîm Rheoli Adrannol.